# Fforwm 50+ - Arolwg 11 (Medi 2013)

## Mae sylwadau Aelodau ein Fforwm yn bwysig inni ac ein nod yw defnyddio'r canlyniadau i helpu i wella'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu.
## Gofynnir ichi gwblhau'r arolwg canlynol erbyn dydd Gwener 11eg Hydref. Diolch yn fawr am gwblhau'r arolwg hwn.

**Gofynnir cwestiynau 1-5 er mwyn casglu data demograffig yn unig ac fe'u defnyddir i nodi tueddiadau yn ôl oedran, rhyw, ardal côd post a chyfnod byw yn y sir. Ni ddefnyddir y data hwn i unrhyw ddiben arall. Rydym yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Diogelu Data.**

**1.** **Rhif Aelodaeth**

[ ]

**2.** **Yn dilyn 'SA', beth yw dau rif cyntaf eich côd post?**

[ ]

**3.** **A ydych chi..?**

- ○ *Yn ddyn*
- ○ *Yn fenyw*

**4.** **Faint yw eich oed?**

- ○ *50-59*
- ○ *60-69*
- ○ *70-79*
- ○ *80+*

**5.** **Ers pryd rydych chi wedi byw yn Sir Gaerfyrddin?**

- ○ *Llai na blwyddyn*
- ○ *1-5 mlynedd*
- ○ *6-10 mlynedd*
- ○ *11-15 mlynedd*
- ○ *16-20 mlynedd*
- ○ *Dros 20 mlynedd*

# Ymgynghori ynghylch Cyllideb 2014/15

**Ers nifer o flynyddoedd mae'r Awdurdod wedi cydnabod y sefyllfa gyllido anodd y mae wedi'i hwynebu ac wedi cydnabod bod angen gweithio'n wahanol a blaenoriaethu sut mae am wario ei adnoddau cynyddol brin. Mae'r Awdurdod wedi gallu pennu cyllidebau cytbwys er gwaethaf yr adnoddau cyfyngedig, yn ogystal â chynnal safonau gwasanaethau i raddau helaeth, ac yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf rydym wedi gorfod cyflawni arbedion effeithlonrwydd gwerth rhyw £32 miliwn.**

**Wrth symud ymlaen ond parhau i ganolbwyntio ar effeithlonrwydd, cydnabyddir bod angen newid sylfaenol mewn perthynas â graddfa'r cynigion arbed i sicrhau bod modd cael cynaliadwyedd ariannol a phennu cyllideb gytbwys. Bydd y sylwadau a gyflwynir yn cael eu hystyried gan yr Aelodau wrth iddynt lunio'r gyllideb dros y misoedd nesaf.**

**Mae gan yr Awdurdod gyllideb o £499 miliwn i ddarparu gwasanaethau'r flwyddyn hon (2013/14). Daw'r arian o'r ffynonellau canlynol:**
**- Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru - £215m (43%)**
**- Treth y Cyngor - £67m (13%)**
**- Ffioedd, Taliadau ac Incwm Arall - £56m (11%)**
**- Cyfradd Annomestig Genedlaethol - £57m (12%)**
**- Grantiau Penodol / Ad-daliad - £103m (21%)**

## Blaenoriaethau Gwariant ar Wasanaethau

**Sylwch: Bydd gan unrhyw benderfyniad a wna'r Cyngor i gynyddu neu leihau gwariant ar ei wasanaethau unigol oblygiadau gwirioneddol i'r bobl yn Sir Gaerfyrddin sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny**

**Rhestrir isod nifer o wasanaethau allweddol y Cyngor.**

**6. Gofynnir i chi nodi, ar y raddfa isod, pa mor bwysig yw pob un o'r gwasanaethau hyn, yn eich barn chi.**

| | *Pwysig iawn* | *Gweddol bwysig* | *Y naill na'r llall* | *Ddim yn bwysig iawn* | *Ddim yn bwysig o gwbl* | *Ddim yn gwybod* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Diogelu Defnyddwyr | | | | | | |
| Tai Cyngor | | | | | | |
| Atgyweirio Tai Cyngor | | | | | | |
| Iechyd yr Amgylchedd / Safonau Masnach | | | | | | |
| Gwasanaethau a chyfleusterau i bobl hŷn | | | | | | |
| Gwasanaethau a chyfleusterau i bobl sâl ac anabl | | | | | | |
| Mynediad i Gefn Gwlad | | | | | | |
| Canolfannau Hamdden | | | | | | |
| Theatrau, orielau celf ac ati | | | | | | |
| Parciau, gan gynnwys Parc Arfordirol y Mileniwm | | | | | | |
| Gwasanaethau Cynllunio | | | | | | |
| Lleoedd Chwarae | | | | | | |
| Gwyliau a digwyddiadau | | | | | | |
| Gwasanaethau bysiau | | | | | | |
| Cysgodfannau bysiau | | | | | | |
| Cynnal a chadw palmentydd | | | | | | |
| Meysydd Parcio Cyhoeddus | | | | | | |
| Cyfleusterau cyhoeddus | | | | | | |
| Cyfleusterau ailgylchu | | | | | | |
| Casglu sbwriel | | | | | | |
| Cynnal/Atgyweirio Ffyrdd | | | | | | |
| Cludiant i'r ysgol | | | | | | |
| Glanhau Strydoedd | | | | | | |
| Goleuo Strydoedd | | | | | | |
| Addysg feithrin | | | | | | |
| Addysg Gynradd ac Uwchradd | | | | | | |
| Addysg i Oedolion | | | | | | |
| Clybiau ieuenctid a chyfleusterau eraill ar gyfer pobl ifanc | | | | | | |

**7. Cyhyd â'ch bod chi'n defnyddio'r gwasanaeth, gofynnir i chi ddweud wrthym pa mor fodlon ydych chi ar y gwasanaethau allweddol a restrwyd**

| | *Dim Defnydd* | *Bodlon iawn* | *Bodlon* | *Y naill na'r llall* | *Anfodlon* | *Anfodlon iawn* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Diogelu Defnyddwyr | | | | | | |
| Tai Cyngor | | | | | | |
| Atgyweirio Tai Cyngor | | | | | | |
| Iechyd yr Amgylchedd / Safonau Masnach | | | | | | |
| Gwasanaethau a chyfleusterau i bobl hŷn | | | | | | |
| Gwasanaethau a chyfleusterau i bobl sâl ac anabl | | | | | | |
| Mynediad i Gefn Gwlad | | | | | | |
| Canolfannau Hamdden | | | | | | |
| Theatrau, orielau celf ac ati | | | | | | |
| Parciau, gan gynnwys Parc Arfordirol y Mileniwm, a mannau agored | | | | | | |
| Gwasanaethau Cynllunio | | | | | | |
| Lleoedd Chwarae | | | | | | |
| Gwyliau a digwyddiadau | | | | | | |
| Gwasanaethau bysiau | | | | | | |
| Cysgodfannau bysiau | | | | | | |
| Cynnal a chadw palmentydd | | | | | | |
| Meysydd Parcio Cyhoeddus | | | | | | |
| Cyfleusterau cyhoeddus | | | | | | |
| Cyfleusterau ailgylchu | | | | | | |
| Casglu sbwriel | | | | | | |
| Cynnal/Atgyweirio Ffyrdd | | | | | | |
| Cludiant i'r ysgol | | | | | | |
| Glanhau Strydoedd | | | | | | |
| Goleuo Strydoedd | | | | | | |
| Addysg feithrin | | | | | | |
| Addysg Gynradd ac Uwchradd | | | | | | |
| Addysg i Oedolion | | | | | | |
| Clybiau ieuenctid a chyfleusterau eraill ar gyfer pobl ifanc | | | | | | |

# Treth y Cyngor 2014/2015

**Ar gyfartaledd, bil treth y Cyngor yn Sir Gaerfyrddin yw £979.70 (£81.64 / mis). Ar y sail hon:**
**- Mae pob cynnydd o 1% yn nhreth y Cyngor yn cyfateb i wariant ychwanegol o £675,000 ar wasanaethau'r Cyngor**
**- Byddai pob gostyngiad o 1% yn nhreth y Cyngor yn arwain at doriad o £675,000 yng ngwasanaethau'r Cyngor**

**8.** **Gofynnir i chi gwblhau'r datganiad hwn trwy ddewis y fersiwn rydych chi'n cytuno fwyaf â hi o ran pennu Treth y Cyngor ar gyfer 2014/2015**

- *Byddwn i'n barod i dalu **rhywfaint yn fwy o dreth y Cyngor** er mwyn diogelu gwasanaethau'r cyngor*
- *Byddai'n well gen i **rewi treth y Cyngor**, hyd yn oed petai hynny'n golygu bod gwasanaethau'r Cyngor yn lleihau*
- *Byddwn i'n barod i dalu **llai o dreth y Cyngor**, hyd yn oed petai hynny'n golygu mwy o dorri nol ar wasanaethau*

**9.** **Telir am gostau rhai gwasanaethau â chyfuniad o refeniw treth a chodi tâl ar ddefnyddwyr. Yn gyffredinol, i ba raddau rydych chi'n cytuno y dylai'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth dalu cyfran fwy o'r gost?**

- *Cytuno'n bendant*
- *Cytuno*
- *Y naill na'r llall*
- *Anghytuno*
- *Anghytuno'n bendant*
- *Ddim yn gwybod*

**10.** **Oes gennych chi unrhyw syniadau neu awgrymiadau rhesymol o ran ble a/neu sut gallai'r Cyngor gyflawni arbedion effeithlonrwydd neu godi incwm? Hefyd, cofiwch gynnwys awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau y dylid dod â hwy i ben.**

**11.** **A oes gennych sylwadau pellach ar gyllideb 2014/2015?**

# Gweddarlledu'r Cyngor

**Ym mis Mai 2013, Cyngor Sir Caerfyrddin oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i ddarlledu, dros y rhyngrwyd, drosglwyddiadau dwyieithog ar y pryd o Gyfarfodydd y Cyngor Llawn. Gellir cyrchu'r gweddarllediad, a fersiynau dilynol o'r archifau, drwy fynd i www.sirgar.gov.uk**

**12.** **Ydych chi wedi gwylio Cyfarfod o'r Cyngor Llawn yn fyw neu o'r archifau?**

- *Ydw (Ewch i C13)*
- *Nac ydw (Ewch i C16)*

**13.** **Sut cawsoch chi wybod am y gweddarlledu? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

- ☐ *Gwybodaeth gan y Cyngor (e.e. Newyddion Sir Gâr)*
- ☐ *Gwefan y Cyngor*
- ☐ *Papur Newyddion Lleol*
- ☐ *Ffynhonnell newyddion ar-lein (e.e. y BBC)*
- ☐ *Clywed gan rywun arall*
- ☐ *Clywed gan un o Swyddogion y Cyngor*
- ☐ *Cael gwybod gan Gynghorydd*
- ☐ *Arall (rhowch fanylion)*

**14.** **Ym mha iaith buoch chi'n gwylio'r gweddarllediad?**

- ○ *Saesneg*
- ○ *Cymraeg*

**15.** **Os buoch yn cyrchu'r gweddarllediad, beth oedd eich barn am y canlynol?**

| | *Da iawn* | *Da* | *Gweddol* | *Gwael* | *Gwael iawn* | *Heb ei dd efnyddio* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ansawdd y Gweddarllediad (llun, sain ac ati) | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Darpariaeth cyfarfodydd o'r archif | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Dolenni i agenda ac adroddiadau'r cyfarfod | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Proffiliau Cynghorwyr/Siaradwyr | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Ffurflen adborth | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

**Ewch i C18**

**16.** **Dywedwch wrthym, os gwelwch yn dda, pam nad ydych wedi defnyddio ein gwasanaeth gweddarlledu? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

- ☐ *Doeddwn i ddim yn ymwybodol ohono*
- ☐ *Does gen i ddim diddordeb mewn defnyddio'r gwasanaeth*
- ☐ *Does gen i ddim cyfrifiadur/mynediad i'r rhyngrwyd*
- ☐ *Alla i ddim defnyddio cyfrifiadur*
- ☐ *Arall (rhowch fanylion)*

**17.** **Fyddech chi'n debygol o wylio Cyfarfod o'r Cyngor Llawn, dros y rhyngrwyd, yn y dyfodol?**

- ○ *Byddwn*
- ○ *Na fyddwn*

**18.** **I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod gweddarlledu'n gwella democratiaeth leol ac ymgysylltu â'r gymuned?**

○ *Cytuno'n bendant* ○ *Cytuno* ○ *Y naill na'r llall* ○ *Anghytuno* ○ *Anghytuno 'n bendant*

**19.** **Wedi cyfnod prawf o 12 mis, ydych chi'n meddwl y dylai'r Cyngor barhau â'i ymrwymiad i ddarlledu Cyfarfodydd y Cyngor Llawn ar y we?**

- ○ *Ydw*
- ○ *Nac ydw*
- ○ *Ddim yn gwybod*

# Twristiaeth

**Twristiaeth yw un o'r prif economïau yn Sir Gaerfyrddin ac mae ei gwerth wedi cynyddu o £142 miliwn yn 1999 i £350 miliwn yn 2012. Mae dros 6,200 o bobl yn gweithio yn y diwydiant twristiaeth.**

**Rydym ar fin dechrau datblygu Cynllun Rheoli Cyrchfannau Twristiaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Gweledigaeth ar y cyd, datganiad o fwriad a chynllun gweithredu clir yw hwn ynghylch sut y dylai Sir Gaerfyrddin ddatblygu dros gyfnod o amser gan gymryd i ystyriaeth yn bennaf anghenion ac ansawdd profiad yr ymwelwyr ond hefyd anghenion y cymunedau lleol, preswylwyr, busnesau a'r amgylchedd.  Felly, mae'r cynllun 5 mlynedd hwn ar gyfer pawb sydd â diddordeb yn nyfodol twristiaeth yn y sir, pa un a ydy hynny'n ymwneud â'r sector preifat, llywodraeth leol, asiantaethau'r llywodraeth, y gymuned leol neu breswylwyr.**

**20.** **Ydych chi'n gweithio yn y diwydiant twristiaeth?**

- ◯ *Ydw (Ewch i C21)*
- ◯ *Nac ydw (Ewch i C22)*

**21.** **Os ydych, pa sector?**

- ◯ *Llety*
- ◯ *Atyniadau*
- ◯ *Bwyd a Diod*
- ◯ *Adwerthu*
- ◯ *Trafnidiaeth*
- ◯ *Arall (rhowch fanylion)*

**22.** **Ydych chi'n sylwi bod twristiaid yn ymweld â'ch ardal leol?**

- ◯
- ◯

**23.** **Yn eich barn chi sut mae niferoedd twristiaid wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf?**

- ◯ *Wedi cynyddu llawer*
- ◯ *Wedi cynyddu ychydig*
- ◯ *Wedi aros yr un fath*
- ◯ *Wedi gostwng ychydig*
- ◯ *Wedi gostwng llawer*

**24.** **Beth yw eich ymateb i dwristiaid sy'n ymweld â'ch ardal leol**

- ◯ *Cadarnhaol iawn*
- ◯ *Cadarnhaol*
- ◯ *Does dim gwahaniaeth gennyf*
- ◯ *Negyddol*
- ◯ *Negyddol iawn*

**25.** **Dywedwch wrthym pam.**

**26.** **Yn ystod y 12 mis diwethaf, beth yw eich barn am nifer yr ymwelwyr yn eich ardal chi?**

- ◯ *Wedi cael mwy o ymwelwyr nag y gall ymdopi â nhw*
- ◯ *Wedi cael y nifer iawn*
- ◯ *Byddai'n fuddiol cael rhagor o ymwelwyr*
- ◯ *Ddim yn gwybod*

**27.** **I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?**

| | *Cytuno'n bendant* | *Cytuno* | *Nid y naill na'r llall* | *Anghytuno* | *Anghytuno 'n bendant* | *Ddim yn gwybod* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae twristiaeth yn bwysig i'm <u>ardal leol</u> | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Dylid annog a hyrwyddo twristiaeth | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Mae twristiaeth yn darparu swyddi ar gyfer llawer o bobl | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Mae trafnidiaeth gyhoeddus a mynediad yn broblem i dwristiaid sy'n ymweld â'm cymuned | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Rwy'n falch o gael hybu Sir Gaerfyrddin fel cyrchfan i ymwelwyr | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Mae twristiaeth yn bwysig i <u>Sir Gaerfyrddin</u> | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Rwyf wedi lobio yn erbyn datblygiad twristiaeth yn fy nghymuned leol | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Yn aml rwy'n hyrwyddo atyniadau lleol i dwristiaid neu'n eu cyfeirio atynt | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Hoffwn i Sir Gaerfyrddin gael ei datblygu'n gyrchfan i dwristiaid drwy gydol y flwyddyn | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |

**28.** **Beth yw eich barn am effaith twristiaeth ar eich ardal leol o ran y materion canlynol?**

| | *Cadarnhaol iawn* | *Cadarnhaol* | *Nid y naill na'r llall* | *Negyddol* | *Negyddol iawn* | *Ddim yn gwybod* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefelau cyflogaeth | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Cyflwr yr amgylchedd naturiol | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Cyfraddau troseddu | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Prisiau nwyddau a gwasanaethau lleol | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Sbwriel | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Sŵn | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Bywyd gwyllt | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Tagfeydd traffig | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Gorlenwi | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |
| Prisiau tai | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ | ◯ |

**29.** **Yn eich barn chi, beth yw nodwedd fwyaf atyniadol Sir Gaerfyrddin ar gyfer twristiaid?**

**30.** **Pa fath o atyniadau, digwyddiadau neu gyfleusterau y dylid eu datblygu yn Sir Gaerfyrddin?**

**31.** **Pa agweddau ar Sir Gaerfyrddin y mae angen eu gwella ar gyfer twristiaid?**

**32.** **Yn eich barn chi, beth yw'r bygythiad mwyaf i ddiwydiant twristiaeth Sir Gaerfyrddin?**

**33.** **Beth yw cyfle neu fantais fwyaf Sir Gaerfyrddin o ran twristiaeth?**

**34.** **A oes gennych ragor o sylwadau i'w gwneud ynghylch twristiaeth yn Sir Gaerfyrddin?**

# Safonau Masnach

**Mae'r Safonau Masnach yn derbyn mwy a mwy o gwynion gan bobl ynghylch galwadau ffôn niwsans ac mae llawer o bobl hŷn ac agored i niwed yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu twyllo gan sgamiau ffôn. Ystyr galwadau niwsans yw unrhyw fath o alwad ffôn sy'n ddi-ofyn neu heb wahoddiad. Mae mathau cyffredin o alwadau niwsans yn cynnwys telefarchnata, negeseuon distaw a rhai sydd wedi cael eu recordio ymlaen llaw e.e. ynghylch Yswiriant Gwarchod Taliadau (PPI)**

**35.** **Mewn wythnos arferol, faint o alwadau niwsans ydych chi'n eu derbyn?**

- ○ *Dim (Ewch i C37)*
- ○ *1-3*
- ○ *4-6*
- ○ *7-9*
- ○ *Mwy na 10*

**36.** **Sut mae galwadau niwsans yn gwneud i chi deimlo? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

- ☐ *Cyllid*
- ☐ *Sgamiau*
- ☐ *Ynni*
- ☐ *Gwella'r Cartref*
- ☐ *Arolygon/Ymchwil i'r Farchnad*
- ☐ *Galwadau distaw*
- ☐ *Arall (rhowch fanylion)*

**37.** **Sut mae galwadau niwsans yn gwneud i chi deimlo? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

- ☐ *Yn ddig*
- ☐ *Yn flin*
- ☐ *Llawn dychryn*
- ☐ *Yn agored i niwed*
- ☐ *Yn ofnus*
- ☐ *Does dim gwahaniaeth gennyf*
- ☐ *Arall (rhowch fanylion)*

**38.** **Mae'r Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn yn wasanaeth rhad ac am ddim sy'n caniatáu i bobl yn y DU ddewis peidio â derbyn rhai galwadau telefarchnata. Pa un o'r gosodiadau canlynol sydd fwyaf perthnasol i chi? (dewiswch UN opsiwn yn unig)**

- ○ *Rwyf heb glywed am y Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn*
- ○ *Rwyf wedi clywed am y Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn ond nid ydw i'n siŵr ynghylch ei ddiben*
- ○ *Rwy'n ymwybodol o'r Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn ond heb gofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwnnw*
- ○ *Rwy'n ymwybodol o'r Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn ac wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwnnw*

**39.** **Petai busnes yn arddangos y logo isod, a fyddech chi'n fwy tebygol o ymwneud ag ef?**

Cynllun Masnachwyr Cofrestredig – Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council – Safonau Masnach Trading Standards – Registered Traders Scheme

- ○ *Byddwn*
- ○ *Na fyddwn*

**40.** **Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, mae'n bwysicach fyth bod pobl o bob oed yn ymwybodol o sut i reoli arian yn gyfrifol ac yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth i wneud penderfyniadau ariannol da.**

**Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw addysg ariannol ar gyfer y grwpiau oedran canlynol?**

| | *Pwysig dros ben* | *Pwysig* | *Nid y naill na'r llall* | *Eithaf pwysig* | *Ddim yn bwysig o gwbl* |
|---|---|---|---|---|---|
| **7 - 10 oed** (ysgol gynradd) | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **11 - 14 oed** (ysgol uwchradd) | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **15 - 18 oed** (ysgol uwchradd / coleg) | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **19-21 oed** (prifysgol) | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **22 - 49 oed** | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **50 - 64 oed** | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **65+ oed** | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |